Mae NICE wedi asesu Spectra Optia er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid defnyddio'r cynnyrch hwn.

Mae Spectra Opita yn afferesis ac yn llwyfan casglu celloedd y gellir ei ddefnyddio i drin clefyd y crymangelloedd. Dylid ei ystyried fel opsiwn ar gyfer cyfnewid celloedd coch y gwaed yn awtomatig mewn cleifion gyda chlefyd y crymangelloedd sydd angen trallwysiad yn rheolaidd.

Mae defnyddio Spectra Opita yn gyflymach ac mae angen ei wneud yn llai aml na chyfnewid celloedd coch y gwaed â llaw. Mae NICE wedi argymell y dylid cynnal gwaith ymchwil ychwanegol ar sut y mae Spectra Opita yn effeithio ar lefelau haearn unigolion dros gyfnod hir, ond ceir tystiolaeth nad yw cyfnewid celloedd coch y gwaed yn awtomatig gyda'r ddyfais yn ychwanegu haearn yn yr un ffordd â chyfnewid â llaw.

ISBN: 978-1-4731-1844-7